LANCS71

Nodi ac asesu cyfleoedd ar gyfer defnydd integredig o dir gwledig a menter busnes

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys nodi ac asesu cyfleoedd ar gyfer defnydd integredig o dir a menter busnes.

Bydd hyn yn cynnwys ymchwilio i fenter busnes gwledig, edrych ar brif gynnyrch ac allbwn y fenter yn ystod y pedwar tymor, ac edrych ar y ffordd y gallai'r fenter arallgyfeirio ymhellach. Mae ystyriaethau allweddol eraill yn cynnwys pwysigrwydd rheoli adnoddau cynaliadwy.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer y rheiny sydd yn gweithio i fenter busnes gwledig i'w helpu i ddeall y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer defnydd integredig o dir gwledig a chyfleoedd menter busnes amgen, a allai gynorthwyo'r busnes a chyfrannu at economi'r gymuned ehangach.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. ymchwilio i'r systemau cynhyrchu presennol neu wasanaethau'r fenter busnes gwledig, dros y pedwar tymor
2. nodi prif fewnbwn a chynnyrch y fenter busnes gwledig
3. nodi effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cadarnhaol a negyddol y fenter busnes gwledig
4. nodi ac asesu cyfleoedd amgen ar gyfer defnydd integredig o dir gwledig a menter busnes y gallai'r fenter busnes gwledig arallgyfeirio iddo, yn cynnwys mewnbwn, systemau, cynnyrch a marchnadoedd posibl
5. asesu adnoddau presennol i nodi'r rheiny y gellir eu defnyddio yn y cyfleoedd amgen a beth arall fyddai angen
6. asesu sgiliau cyfredol staff presennol i nodi'r rheiny y gellid eu defnyddio gan y cyfleoedd amgen
7. asesu'r cyfleoedd amgen mewn perthynas â phwysigrwydd posibl i'r fenter busnes gwledig a'r effaith ehangach ar yr ardal, y gymuned a'r amgylchedd lleol
8. ymchwilio i ffynonellau posibl cyllid neu gymorth arall, yn cynnwys cyngor ac arweiniad, i ganiatáu rhoi'r cyfleoedd amgen ar waith
9. parhau i gyfathrebu gyda chydweithwyr ac eraill sydd yn gysylltiedig â'r fenter busnes gwledig, neu wedi ei heffeithio ganddi
10. dod i gasgliadau a chyflwyno cynigion, ar fformat addas, i gynulleidfaoedd perthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. mathau gwahanol o ddefnydd o dir gwledig a mentrau busnes
2. systemau cynhyrchu presennol neu wasanaethau'r fenter busnes gwledig
3. prif fewnbwn, cynnyrch a marchnadoedd y fenter busnes gwledig
4. sut a pham y gall gweithgareddau'r fenter busnes gwledig amrywio yn ystod y pedwar tymor
5. yr adnoddau sydd eu hangen ar hyn o bryd ar gyfer y fenter busnes gwledig
6. rolau swyddi staff sydd yn gysylltiedig â'r fenter busnes gwledig a'r rhinweddau cyffredinol a'r sgiliau sydd ganddynt
7. effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cadarnhaol a/neu negyddol y fenter busnes gwledig
8. sut i nodi ac asesu cyfleoedd amgen ar gyfer defnydd integredig o dir gwledig a menter busnes y gallai'r busnes arallgyfeirio iddo
9. y mewnbwn, systemau, cynnyrch a'r marchnadoedd gwahanol sydd yn gysylltiedig â'r cyfleoedd amgen
10. yr adnoddau sydd yn ofynnol ar gyfer y cyfleoedd amgen
11. y sgiliau sydd yn ofynnol ar gyfer y cyfleoedd amgen
12. effaith bosibl y cyfleoedd amgen ar y fenter busnes gwledig a'u heffaith ehangach ar yr ardal, y gymuned a'r amgylchedd lleol
13. sut i ddod o hyd i wybodaeth am fynonellau cyllid posibl neu gymorth arall, yn cynnwys cyngor ac arweiniad, i alluogi cyfleoedd amgen i gael eu rhoi ar waith
14. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu trwy gydol yr ymchwiliad
15. sut i ddod i gasgliadau a chyflwyno canfyddiadau i'r cynulleidfaoedd perthnasol yn ymwneud â'r cyfleoedd

## Geirfa

Mae **mathau gwahanol o ddefnydd o dir a mentrau busnes** yn cynnwys: cwmnïau preifat; cwmnïau cyhoeddus; micro-fusnesau; mentrau bach a chanolig eu maint (SME); mentrau cymdeithasol; elusennau; sefydliadau gwirfoddol; cydweithfeydd

**Effaith economaidd:** nifer y swyddi sydd yn cael eu creu; nifer y swyddi sydd yn cael eu cynnal; lefel twristiaeth; gwariant sydd yn cael ei greu; buddion economaidd i fusnesau lleol eraill.

**Effaith amgylcheddol:** bioamrywiaeth/cadwraeth; defnydd o ynni; defnydd o ddŵr a thir; rheoli carbon; osgoi a rheoli gwastraff; cynaliadwyedd; newid hinsawdd

**Mewnbwn:** deunyddiau; adnoddau; llafur; prosesau

**Cynnyrch:** cynnyrch neu wasanaeth

Gallai **mentrau busnes gwledig** gynnwys mentrau tir neu ddŵr: mentrau amaethyddol/garddwriaethol; prosesu ar fferm a marchnata uniongyrchol (e.e. siop fferm); pysgodfeydd; dyframaethu; gweithgareddau hamdden; chwaraeon gwledig; twristiaeth; gwasanaethau ymwelwyr; coedwigaeth a rheoli coetir; contractwyr amaethyddol/garddwriaethol; milfeddygaeth; canolfannau gweithgareddau awyr agored; cynelau cŵn; ysgolion marchogaeth; stablau hurio; cathdai; ac ati a'r rheiny sydd yn darparu gwasanaethau ategol i fentrau busnes gwledig, fel cyflenwi peiriannau a gwasanaeth; milfeddygon; masnachwyr hadau; cwmnïau cyflenwi ffermydd, marchnad anifeiliaid fferm; ac  ati

**Effaith gymdeithasol:** y lefel ymgysylltu/gweithgaredd y mae'r fenter yn ei darparu, p'un ai ei fod yn dod â'r gymuned leol ynghyd, yn creu problemau oherwydd niferoedd uchel y bobl sydd yn symud i mewn yn dymhorol ac ati

LANCS71

Nodi ac asesu cyfleoedd ar gyfer defnydd integredig o dir gwledig a menter busnes

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS71 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Garddwriaeth a choedwigaeth, Gweithiwr Ystâd, Amaethyddiaeth |
| **Cyfres/Set** | Garddwriaeth, Gwaith coed, Cadwraeth Amgylcheddol, Helwriaeth a Rheoli Bywyd Gwyllt, Dyframaethu, Rheoli Pysgodfeydd |
| **Geiriau Allweddol** | gwledig; busnes; arallgyfeirio; cyfleoedd |